**<u>Adroddiad i Bwyllgor Cyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian</u>**

**<u>13eg Tachwedd 2015</u>**

Eleni, unwaith eto, gwelwyd gostyngiad amlwg yn y rhan fwyaf o fathau o droseddau ar lein Arfordir y Cambrian.

Roedd mwyafrif yr achosion a ddeliwyd gyda hwy yn Droseddau Traffig Ffyrdd, yn bennaf problemau parhaus gyda gyrwyr yn camddefnyddio'r croesfannau rheilffordd. Yn ystod y cyfnod o Ebrill i Hydref 2015, cyflwynwyd Hysbysiadau Cosb Penodedig i ddeg o droseddwyr gan eu dirwyo am £100 ac o ganlyniad rhoddwyd tri phwynt cosb ar eu trwyddedau gyrru.

O'r nifer yma, roedd chwech yn gamddefnyddio mwy difrifol oedd yn golygu iddynt gael eu delio o dan y drosedd o Yrru Diofal, roedd tri am yrru ar draws croesfan Talwrn Bach yn Llanbedr pan roedd y trenau yn aros ger platfform yr orsaf. Nid oedd y tri gyrrwr yn dod o'r ardal a defnyddiwyd yr esgus eu bod yn credu ei bod hi'n ddiogel croesi gan fod y trên yn aros yn yr orsaf, neu nad oeddent yn gwybod sut i ddefnyddio croesfan heb rwystrau.

**Mae goleuadau coch yn golygu ARHOSWCH. A dyna ni!**

<u>Ymddygiad Gwrthgymdeithasol</u>

Mae'n ymddangos fod y trafferthion hanesyddol ar y trên olaf o Aberystwyth i Amwythig am 19:30 ar nos Sadwrn wedi peidio, ond gwelwyd cynnydd amlwg yn nifer y teithwyr ar y trên cyffelyb o Amwythig i Aberystwyth yn enwedig rhwng Amwythig a'r Drenewydd. Mae Heddlu TP yn Amwythig yn cadw golwg ar hyn i atal unrhyw achosion o ymddygiad anghymdeithasol. Roedd y trenau olaf o'r Amwythig i'r Drenewydd ar nos Wener a nos Sadwrn cyn Nadolig y llynedd yn brysur ac yn swnllyd, ac felly mae'n ymddangos fod y tueddiad o deithio ar y penwythnos i Aberystwyth wedi newid i Amwythig. Bydd Heddlu TP, Heddlu Dyfed-Powys a Heddlu Gorllewin Mersia yn cyd-weithio ac yn cadw golwg ar hyn dros y Nadolig.

Mae agor tafarn JD Wetherspoons gyferbyn â'r orsaf ym Mhwllheli wedi effeithio ar nifer y teithwyr ar y gwasanaeth 20:12 o Bwllheli i Fachynlleth ar nosweithiau Gwener a Sadwrn. Cafwyd rhai adroddiadau gan griwiau'r trenau yn dweud fod teithwyr wedi eu difrïo yn eiriol, yn enwedig mewn perthynas â'r mynediad amser a roddir i'r trên cyn gadael Pwllheli.

Mae hyn yn annerbyniol a byddwn yn gweithio'n agos gyda swyddogion Heddlu TP o Fangor a'r Rhyl i fonitro unrhyw broblemau pellach. Dylai'r teithwyr fedru cwblhau eu taith a dylai gweithwyr y trenau fedru ymgymryd â'u dyletswyddau heb ofn, braw na thrais gan deithwyr meddw afreolus.

Yn ystod y cyfnod sy'n arwain at y Nadolig, byddwn yn ceisio plismona cymaint o'r trenau hyn o ran ymddygiad anghymdeithasol â phosib, o gofio cyfyngiadau ardal ddaearyddol fawr a'r galwadau eraill ein gwasanaeth.